


**Gwneud Ysgol Gynradd Drury yn fwy a  
newid nifer y disgyblion llawn amser o  
124 i 180 o ddisgyblion**

## **Dogfen Ymgynghori**

**Fersiwn i Blant  
Mawrth 2022**



# Pwy ydym ni?

Mae Cyngor Sir y Fflint yn gyfrifol  
am yr holl ysgolion yn ein hardal.

Rydym ni'n rhan o dîm sy'n  
gweithio i'r Cyngor i gefnogi  
ysgolion.



# Ein Nodau

- Rhoi'r cyfle gorau i blant ddysgu mewn ysgolion ardderchog yn ein hardal.
- Darparu adeiladau ysgol diogel a chadarn.
- Gwneud yn siŵr fod arian ar gyfer plant ac ysgolion yn ein hardal yn cael ei wario'n deg.
- Rhoi cyfle i bawb leisio eu barn a gwrando ar safbwyntiau pawb am benderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw.



# Newidiadau

Nid yw bob amser yn bosibl i bob ysgol aros fel maen nhw ac ambell waith mae hyn yn golygu bod angen i'r Cyngor wneud rhai newidiadau pwysig.

Gall newidiadau helpu i roi'r cyfle gorau i bawb ddysgu, yn yr ysgol orau bosibl.



# Beth mae hyn yn ei olygu?

Rydym yn bwriadu gwneud Ysgol Gynradd Drury yn fwy fel bod mwy o ddisgyblion yn gallu ei mynychu

Rydym eisiau cynyddu nifer y disgyblion llawn amser sy'n mynychu'r ysgol o 124 o ddisgyblion llawn amser ar hyn o bryd i 180 o ddisgyblion llawn amser

Rydym am adeiladu dwy ystafell ddosbarth yn yr ysgol bresennol er mwyn gwneud hyn



# Pam?

Rydym yn bwriadu gwneud Ysgol Gynradd Drury yn fwy oherwydd bod nifer o ddisgyblion wedi cael eu derbyn i'r ysgol ac mae hyn wedi creu problemau o ran diffyg lle

Hefyd oherwydd bod mwy o blant a phobl ifanc wedi cyrraedd yr ardal oherwydd tai newydd sydd wedi'u hadeiladu yn yr ardal



# Pa mor hir fydd hyn yn ei gymryd?

1 Mawrth 2022

11 Ebrill 2022

Gorffennaf 2022

1. Bydd pobl yn dweud eu barn rthym ni.

2. Byddwn ni'n casglu'r holl atebion ac yn dweud wrth bawb beth ydi'r prif sylwadau.

3. Bydd y Cyngor yn cynnal cyfarfod i benderfynu beth i'w wneud. Yna byddwn yn gadael i bawb wybod beth ydi'r penderfyniad.



# Hoffech chi wybod mwy?

Os hoffech chi gael mwy o wybodaeth, mae dogfen fwy ar gael ar y rhynggrwyd. Ewch i:

<https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Modernisation-Related/Home.aspx>






# Beth ydych chi'n feddwl?

Mae'n bwysig iawn ein bod yn siarad gyda llawer o wahanol bobl am y syniad yma, yn enwedig plant. Mae eich barn yn bwysig i ni.

Yn y llyfryn yma gallwch ysgrifennu unrhyw beth yr hoffech ei ddweud wrthym ni ac unrhyw syniadau sydd gennych chi.




# I ba ysgol ydych chi'n mynd rŵan a beth yw eich oedran?



Ysgrifennwch eich atebion yn y blwch




# Beth ydych chi'n feddwl o'r syniad o wneud Ysgol Gynradd Drury yn fwy a chynyddu o 124 disgybl llawn amser i 180?



Dywedwch wrthym beth  
ydych yn ei feddwl trwy  
ysgrifennu eich atebion yn y  
blwch.




# Oes unrhyw beth arall yr hoffech chi ei weld yn digwydd yn lle hyn?



Dywedwch wrthym  
beth ydych yn ei  
feddwl trwy ysgrifennu  
eich atebion yn y blwch



# Hoffech chi ddweud unrhyw beth arall?



Ysgrifennwch eich atebion yn y blwch



# Beth sy'n digwydd nesaf?

Postiwch eich llyfryn wedi'i lenwi atom erbyn **11 Ebrill 2022**. Yn anffodus, ni fyddwn yn gallu derbyn unrhyw beth y byddwch yn ei anfon atom ni ar ôl y dyddiad hwnnw.

**Cyfeiriad:**

Tîm Moderneiddio Ysgolion  
Cyngor Sir y Fflint, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewlo, Sir y Fflint, CH5 3XT

Neu gallwch e-bostio'ch sylwadau i:  
[21stcenturyschools@flintshire.gov.uk](mailto:21stcenturyschools@flintshire.gov.uk)

Neu postiwch eich llyfryn yn y blwch post yn y dderbynfa yn Ysgol Gynradd Drury



**Diolch**

